

Adnoddau a Gwerthusiad ECAD5052

Molly Evans- 2213370

Cynllun Gwers

Blwyddyn: 1	Maes Dysgu a Phrofiad: Ieithoedd, Llythrennedd a chyfathrebu	Nod y wers: I ddeall ac i ddefnyddio ‘Dydw i ddim yn’ i ddechrau frawddeg a nid ‘Fi yn’.
Gwybodaeth flaenorol: Mi fydd y disgyblion yn cael gwers trawscwricwlaidd ar dasg iaith sy’n hybu ddealltwriaeth am ddefnyddio ‘Dydw i ddim yn’ i ddechrau frawddeg yn hytrach na ‘Fi ddim yn’ sydd yn anghywir yn ieithyddol.	Geirfa allweddol: Fi ddim yn. Dydw i ddim yn hoffi/mynd. Ffocws iaith: Yn y wers iaith hon, y ffocws iaith yw annog y plant i ddechrau brawddegau gyda “Dydw i ddim yn...” yn hytrach na defnyddio'r ffurf anffurfiol “Fi ddim yn...”. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn helpu'r plant i ddefnyddio Cymraeg safonol ac i ddatblygu eu gallu i ffurfio brawddegau'n gywir yn ieithyddol. Trwy ddefnyddio'r ffurf gywir o'r ferf “bod” yn y negyddol, maen nhw’n dysgu sut mae patrymau gramadegol yn gweithio mewn cyd-destun ffurfiol ac ysgrifenedig, sy’n hanfodol ar gyfer eu sgiliau cyfathrebu mewn ysgol a thu hwnt.	Gweithgareddau: Tasg Focws Bydd y grŵp GI yn derbyn cyfres o frawddegau anghywir sy’n dechrau gyda ‘fi ddim yn’ bydd angen iddynt dorri’r frawddeg anghywir allan a gludo yn ei llyfrau. Yna bydd angen iddynt gopio’r frawddeg cywir allan o dan y frawddeg gan orffen y frawddeg gyda rhywbeth nad ydynt yn hoffi. Tasg Allanol Bydd y grŵp GU yn chwarae gem cyfateb brawddegau tu allan mewn ffordd sy’n herio’r ymennydd drwy gem cof. Bydd twba wedi ei osod allan un ochr y iard ac wedi ei lenwi gyda naill ai pasta sych, neu tywod. Yng nghanol y tywod a’r pasta bydd yna luniau. Ond ar pen draw’r iard bydd yna brawddegau mewn hwps wedi ei osod allan i bob par. Yng nghanol y twba a’r hwps bydd cons, Tasg y par yw i ddarllen y frawddeg gan redeg trwy’r cons un ar y tro i ddod i hyd i’r llun yn y twba cywir. Y par i gael set cyflawn bydd yn ennill. Tasg Digidol- HH Bydd y grŵp GC yn gweithio fel grwp i roi brawddegau yn ei trefn cywir ar Wordwall ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Yna bydd gweddill y grwp yn chwarae gem o gyfateb cardiau gyda brawddegau a lluniau arnynt. Bydd angen iddynt ddarllen y frawddeg a’i paru gyda’r llun, neu paru’r llun gyda’r frawddeg cywir.
Adnoddau: Mi fydd y disgyblion yn cael cyflwyniad clir ar ffurf pwerbwynt a fydd yna yn ei tywys nhw at weithgareddau gwahanol. Gweithgaredd 1- Tasg cywiro brawddegau yn ysgrifennedig. Gweithgaredd 2- Tasg digidol ‘wordwall’ (amryw o gemau Cymraeg) Gweithgaredd 3- Tasg allanol paru brawddegau â lluniau.		

Cywirwch y frawddegau; (cyflwyniad)

- Fi ddim yn hoffi rygbi.
- Fi ddim yn mynd i'r traeth heno.
- Fi ddim yn hoffi mynd am dro.

Adnoddau- Tasg Ffocws Ysgrifennedig

Fi ddim yn hoffi...

Fi ddim yn hoffi... mae well gen i...

Fi ddim yn hoffi...

Rwy'n hoffi mynd i'r parc ond fi ddim yn hoffi...

Fi ddim yn hoffi chwarae yn y mwd!

Adnoddau Gwers Meicro- Allanol

Dydw i ddim yn hoffi bwyta sbrowts, yn enwedig amser y Nadolig.

Dydw i ddim yn mynd yn y car i'r ysgol, rwy'n mynd ar feic.

Dydw i ddim yn hoffi teimlo'n unig, mae'n gwneud fi'n drist iawn.

Dydw i ddim yn mynd i'r sioe heno, mae gen i wers nofio.

Dydw i ddim yn mynd i'r caffi, rwy'n casau coffi!

Dydw i ddim yn mynd i'r Eisteddfod, mae'n rhy ddrud!

Adnoddau Gwers Meicro- Allanol



Adnoddau- Tasg Digidol



Bydd angen i'r disgyblion i
ddefnyddio Ipad i scanio'r côd QR.

Gêm 1-
Dywedwch y
frawddeg allan
yn gywir ar
lafar.



Gêm 2-
Rhowch y
geiriau yn y
trefn cywir.



Gêm 3- Cywir
neu anghywir?



Gêm 4- Allwch
chi ateb y
cwestiynau ar
lafar gan
ddefnyddio
'Rydw i yn /
Dydw i ddim
yn'.



Gwerthusiad

Wrth ddechrau gyda fy nghyflwyniad i'r wers meicro hon, teimlaf fod cyd-destun y wers wedi ei drosglwyddo yn dda iawn i'r disgyblion. Roedd sylw'r disgyblion gyda fi yn syth ac roeddent wedi gwneud ychydig o waith ar y dasg o flaenllaw yn y wers y diwrnod cynt. Roedd angen atgyfnerthu'r ffocws gan fod disgyblion o'r oed yma yn y Dysgu Sylfaen yn dueddol o anghofio patrymau iaith.

Wrth werthuso'r wers iaith ei hunain, rwy'n teimlo bod y wers wedi mynd yn dda ac wedi cyflawni'r nod o gyflwyno a chryfhau'r patrwm iaith "Dydw i ddim...". Roedd y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r gweithgareddau, ac roeddent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r gwahaniaeth rhwng y ffurf anffurfiol "Fi ddim..." a'r ffurf safonol gywir. Roedd y defnydd o enghreifftiau clir a chyfleoedd i ymarfer y patrwm mewn cyd-destunau amrywiol (e.e. brawddegau llafar ac ysgrifenedig) yn fuddiol. Yn ystod y wers, roedd yn amlwg bod rhai disgyblion yn cywiro'u hunain wrth siarad, gan ddangos eu bod yn dechrau mewnoli'r strwythur iaith cywir. Fodd bynnag, efallai bod angen rhagor o gyfleoedd i ymarfer mewn cyd-destunau naturiol i atgyfnerthu'r dysgu. Yn gyffredinol, roedd ymateb y disgyblion yn bositif ac roedd y wers yn llwyddiannus wrth hyrwyddo iaith safonol.

Yn ôl theorïau megis damcaniaeth caffael iaith Vygotsky, mae dysgu'n digwydd orau drwy ryngweithio ystyrlon a'r defnydd ailadroddus o iaith mewn cyd-destunau go iawn (Vygotsky, 1978). Mae plant ifanc yn dysgu trwy chwarae, canu a sgwrsio, ac mae ailadrodd patrymau'n caniatáu iddynt mewnoli'r strwythurau ieithyddol yn raddol. Wrth ddysgu cân iddynt i gofio am y frawddeg Dydw i ddim, fe wnaeth hyn sicrhau ffordd cofiadwy o'i ddysgu mewn ffordd hwylus. Mae hyn yn eu helpu i symud o ddealltwriaeth sy'n seiliedig ar gyd-destun i fedrusrwydd annibynnol wrth ffurfio brawddegau. Felly, mae ailadrodd pwrpasol ac ymarfer rheolaidd o batrymau iaith yn allweddol i ddatblygu eu sgiliau iaith yn effeithiol. Y tro nesaf byddaf yn canolbwyntio ar newid y weithgaredd i hybu dealltwriaeth pellach.

Cyfeirnod

- Vygotsky, L.S. (1978) *Mind in Society: The Development of Higher Psychological Processes*. Translated by M. Cole et al. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Ffurflen gydsynio ar gyfer tynnu lluniau a ffilmio

Datganiad

Rhaid i ddarpar athrawon dderbyn cydsyniad ysgrifenedig gan y Pennaeth/ Uwch Fentor cyn tynnu lluniau disgyblion, eu ffilmio neu wneud recordiad sain ohonynt.

Cytunaf i **Molly Evans** sy'n gynrychiolydd o PDPA , wneud y canlynol:


(Ticiwch fel y bo'n briodol)

Tynnu lluniau✓

Ffilmio✓

Recordio ✓

Enw'r Pennaeth/ Uwch Fentor: Ruth Jones



Enw'r Darpar athro : Molly Evans

Llofnod: M.J.Evans

Rhif myfyriwr: 2213370

Rhaglen (e.e. BA Addysg/**TAR Cynradd**/TAR Uwchradd):

Dyddiad: 25.3.25